

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne ar  
Nos Lun 8fed o Fai, 2017 am 7.40 y.h.**

**Presennol:****Cyng. Hefin M. Evans (Cadeirydd)****Cyng. T.A.G. Davies****Cyng. Sh. Edwards****Cyng. A. Evans****Cyng. J. George****Cyng. E. Lewis****Cyng. C. Lloyd-Morgan****Cyng. L.L. Owen****Cyng. M. Davies****Materion Personol**

Cyfeiriwyd nad oedd Byron Jenkins na John Powell wedi ail-eistedd fel Cynghorwyr Cymuned yn dilyn yr Etholiadau ddechrau Mai. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn danfon nodyn o werthfawrogiad i'r ddau am eu gwasanaeth dros y gymuned tra byddid yn Gynghorydd Cymuned. Yn yr un modd cytunwyd i ddanfon llythyr o werthfawrogiad i Rowland Jones, Llanilar am ei waith diflino tra'n Gynghorydd Sir Ward Ystwyth am dros bum mlynedd ar hugain.

Croesawyd y Cynghorydd Meirion Davies, sef olynnydd i Rowland Jones a etholwyd yn yr Etholiad yr wythnos diwethaf fel Cynghorydd Sir Ceredigion dros Ward Ystwyth.

**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 3ydd Ebrill, 2017 fel cofnod cywir. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion****Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

**Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn**

Nid oedd diweddariad i'w adrodd er y deallwyd bod sefyllfa o'r arogl carthffosiaeth wedi gwella'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf ond bod y broblem yn parhau yn achlysurol. Cytunwyd i'r Clerc barhau i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi am y posibilrwydd am system carthffosiaeth newydd drwy Bentref Llanfihangel-y-Creuddyn.

**Sefyllfa Band Eang o fewn yr Ardal**

Mynychodd Mr. Martin Jones Rheolwr Prosiect Cymru, gyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned ar yr 19eg o Ebrill yn dilyn gwahoddiad o'r Cyngor Cymuned ble y cafwyd diweddariad o sefyllfa cysylltu band llydan cyflym o fewn ardal Cyngor Cymuned Trawsgoed.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gymaint â phosibl o dai a busnesau yng Nghymru yn derbyn Band Llydan Cyflym erbyn diwedd 2017 gyda BT wedi ennill y contract o weithredu hyn drwy Open Reach. Ar hyn o bryd mae 80% o drigolion Cymru wedi medru derbyn y gwasanaeth pe dymument gyda'r gweddill ar y trywydd iawn i'w cwblhau.

Cafwyd diweddariad o ran gwahanol bentrefi o fewn yr ardal gydag amserlen pryd y gobeithir cysylltu gyda'r gwasanaeth cyflym. Bwriedir cysylltu o'r 'Cabinet' yn Nhrawsgoed a gan fod rhai eiddo yn rhy bell o'r 'Cabinet' ni fyddid yn medru cysylltu i'r Gwasanaeth Cyflym. O'r eiddo roedd Mr. Jones yn cyfeirio a oedd yn rhy bell cyfeiriodd yr Aelodau iddo fod contractwyr ar ran BT/OpenReach wedi bod yn doddi gwifrau trwchus yn y lleoliadau hyn. Cytunwyd y byddid yn danfon rhestr iddo o'r tai ar hyd y ffyrdd roedd yn cyfeirio ato oedd yn rhy bell o'r Cabinet gan nodi bod y gwifrau mewn lle yn barod.

### **Materion angen sylw'r Cyngor Sir Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052**

Ni dderbyniwyd manylion pellach a chytunwyd i'r Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir am ddiweddariad ac annog i'r gwaith ei gwblhau fel mater o frys.

### **Rhiw Dolgwybedig**

Dim diweddariad ond y Clerc i barhau i bwysu ar y Cyngor Sir bod angen gwneud gwaith ar y dreiniau dwr ar hyd y ffordd yn gyntaf cyn canolbwyntio ar waith wyneb y ffordd.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

### **Maes y Felin, Llanafan**

Deallwyd bod y cerbyd dan sylw yn parhau yn y lleoliad. Cytunwyd i'r Clerc bwysu ar Tai Ceredigion i weithredu i symud y cerbyd.

### **Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan**

Cyfeiriodd y Clerc bod yn bosibl gwneud cais am Grant Cymunedol wrth Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer hyd at hanner y costau i gwblhau doddi golau stryd ychwanegol yn Llanafan. Cytunwyd i'r Clerc gyflwyno cais am y grant.

### **Draeniau o'r Terrace, Cnwch Coch i Rhydyfagwyr ac o Cwmnewidion i Rhydyfagwyr.**

Y sefyllfa yn parhau. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Cyngor Sir i roi sylw i'r draeniau.

### **Gwrych i'w thorri yng Nghwmnewidion Isaf**

Mae sefyllfa'r gwrych yng Nghwmnewidion yn parhau ble mae'n tyfu'n uchel ac yn ymestyn allan i'r ffordd gan wthio cerbydau i deithio i ganol y ffordd. Cydnabyddir nad yw'n amserol i dorri gwrychoedd adeg yma o'r flwyddyn ond cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir ymhellach gan ofyn i ddelio gyda'r sefyllfa o dan fater iechyd a diogelwch y cyhoedd ar y darn yma o'r ffordd.

**Arogl Carthffosiaeth yn Llanafan**

Ni dderbyniwyd dim ymhellach am arogl carthffosiaeth yn Llanafan ond cyfeiriwyd fod yna lygredd du amlwg i weld yn y dwr yn Afon Pant yr Haidd y diwrnodau diwethaf yma. Penderfynwyd bod angen i'r Clerc gysylltu ar frys gyda'r Awdurdodau perthnasol i dynnu sylw at hyn a mynd at wraidd tarddiad y llygredd.

**Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.**

Nifer o ddraeniau yn yr ardal angen ei gwaghaus.

Grid wedi dod allan o'r Culvart yng Ngwm Rhydyfelin gan adael twll yn y ffordd. Nid oes dim gweithred pellach ar sefyllfa'r Culvart felly'r Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Drain wedi blocio yn agos at benlon Sarnau.

Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Riw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn wedi llenwi ond erbyn nawr mae yna dyllau eraill wedi ymddangos yn gwneud y ffordd yn anwastad, hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr.

**Arwyddion Ffordd**

Adroddwyd bod yr arwydd ffordd yn cyfeirio at Bontrhydygroes ger mynediad at Cnwch Coch wedi ei ail-osod ond nad oes dim wedi gwneud am yr arwydd sy'n cyfeirio at Bentref Llanafan ger Erw Lon uwchben y Pentref sydd bellach wedi diflannu.

Gweithred: y Clerc i ddilyn lan ymhellach gan nad oes arwydd newydd wedi ymddangos.

**Bont ger Glanyrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn**

Dim wedi gwneud i'r cwrb sy'n rhydd ar y bont sydd angen sylw.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

**Coed Ffordd Uchaf Llanafan**

Adroddodd Cyng. L. Owen fod yna gontractwr ar ran Prifysgol Aberystwyth wedi dechrau ar y gwaith o dorri'r coed.

**Cerbydau yn parcio yn Y Gors**

Yn ychwanegol i'r ymateb a dderbyniwyd gan Swyddog yr Heddlu yn y cyfarfod diwethaf derbyniwyd ymateb i'r sefyllfa o du'r Cyngor Sir yn cyfeirio nad oedd y man parcio ger hysbysfwrdd y Gors wedi cynnal gan unrhyw gyfyngiadau parcio felly mae'n gyfreithiol i gerbydau barcio yno, ar yr amod fod y cerbydau wedi yswirio a gyda threth perthnasol. Cyfeirir yn y llythyr y byddai'r Heddlu yn medru ymdrin gydag unrhyw gerbyd sydd wedi parcio a fyddai'n achosi perygl i eraill. Awgrymwyd y byddid o fudd i gael gair anffurfiol gyda pherchnogion y cerbydau i'w hannog i beidio â gadael cerbydau am amseroedd hir yn y manau dan sylw. Yn ôl a ddeallir o ymateb y Cyngor Sir a'r Heddlu yn flaenorol bydd angen y Cyngor Cymuned ac aelodau'r cyhoedd gysylltu gyda'r Heddlu yn syth pe gwelir cerbydau yn parcio mewn manau sy'n achosi perygl i'r cyhoedd.

Cytunwyd i gadw'r eitem ar yr agenda.

**Rheiliau Pren**

Nid yw'r rheiliau pren sydd wedi torri gyferbyn a Berllanber, Abermagwr wedi adnewyddu hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

**Torri ar draws Cornel**

Yr angen hefyd i barhau i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw pellach fod cerbydau yn torri ar draws y llain las ger y gyffordd am gyfeiriad Llannerch yr Oen o gyfeiriad Llanfihangel-y-Creuddyn.

**Rheiliau Pren gyferbyn â Phlas y Creuddyn**

Mae sefyllfa'r rheiliau pren gyferbyn â Phlas y Creuddyn sydd wedi dirwyo ac angen ei adnewyddu yn parhau. Y Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir.

**Ffordd C1052 o Penuwch Fach i'r Gors**

Cyfeiriwyd mai o Penuwch Fach i Sarnau oedd angen manau pasio ac nid tuag at y Gors. Penderfynwyd parhau i fod mewn cyswllt gyda'r Cyngor Sir am hyn.

**Drain Dwr wedi blocio ger Minafon, Llanafan**

Ni does dim gweithredu pellach wedi bod ar y drain. Y Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir i sicrhau y cwblheir y gwaith.

**Coeden Beryglus**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf cysylltwyd gyda swyddogion Prifysgol Aberystwyth ac fe drefnwyd yn syth i dorri'r goeden dan sylw gyferbyn â'r hen ysgol yn Llanafan tuag at y troad am Maes y Felin er diogelwch y cyhoedd.

**Llinellau Ffyrdd**

Cytunwyd fod angen ail-baentio'r llinellau gwyn ar y ffyrdd o fewn yr ardal. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw o hyn.

**Goleuadau Stryd ger Gerynant, Cnwch Coch**

Deallir nad yw'r broblem o swn ar y golau stryd mor ddrwg erbyn nawr ond angen cadw llygad a phe byddai'r broblem yn parhau i gysylltu'n syth gyda Chyngor Sir Ceredigion.

**Materion Cyllidol**

Ar yr 8fed o Fai, 2017 roedd gan y Cyngor Bro mewn llaw £8,631.13 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,986.41 yn y Cyfrif Cadw.

Cyflwynodd y Clerc mantolen cyllideb yn nodi'r gwariant am y flwyddyn ac amcangyfrif o'r gwariant am weddill y flwyddyn ariannol. Derbyniwyd y fantolen.

Gan fod swm sylweddol yn y Cyfrif Cyfredol cytunwyd i drosglwyddo £5,000 i'r Cyfrif Cadw. Cynigiwyd y trosglwyddiad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

**Presept**

Derbyniwyd swm o £3,000 o gyllid Presept gan Cyngor Sir Ceredigion fel rhan daliad o'r £4,500 a wnaed cais amdano. Disgwylir derbyn yr ail-daliad ym mis Hydref.

**Taliadau****Yswiriant**

Cyfnod yswiriant y Cyngor Cymuned yn dod i ben. Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant am £361.90 am y flwyddyn 2017/18 yn unol â'r penderfyniad y flwyddyn flaenorol i ymrwymo i gontract o bum mlynedd gyda Zurich. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards

**Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin**

Derbyniwyd cais am nawdd ariannol gan Gymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin, Llanafan am gyfraniad tuag at gostau rhedeg y Maes Chwarae.

Penderfynwyd danfon rhodd o £500 at y Pwyllgor. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

Datganodd Cyng. Lewis Owen ddiddordeb ac ymatebodd o unrhyw drafodaethau yn ymwneud â'r penderfyniad.

Darllenwyd lythyr ychwanegol wrth Bwyllgor Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin yn nodi bod les y Maes Chwarae gyda Chyngor Sir Ceredigion yn dod i ben yn Ionawr 2018 wedi cyfnod o un mlynedd ar hugain. Yn unol â thelerau'r les bresennol y meddir ymestyn cyfnod y les am gyfnod pellach o un mlynedd ar hugain a hynny pe byddai Cyngor Cymuned Trawsgoed yn gwneud cais i'r Cyngor Sir o fewn chwe mis i ddiwedd y les presennol. Yng Nghyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin a gynhaliwyd ym mis Ebrill cytunodd y Pwyllgor y byddid yn gofyn i Gyngor Cymuned Trawsgoed wneud trefniadau perthnasol i ymestyn y les gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion yn rhoi rhybudd o'r bwriad i ymestyn y les am gyfnod o un mlynedd ar hugain ychwanegol. Cynigiwyd y trefniadau hyn gan Cyng. Alwyn Davies ac eiliwyd gan Cyng. Ceridwen Lloyd-Morgan.

**Tendr Torri Porfa yn Llanfihangel-y-Creuddyn a thocio Ffordd Uchaf, Llanafan**

Yn y Cyfarfod Arbennig ar y 19eg Ebrill bu eitem ar yr agenda i drafod yr uchod a chytunwyd i gymeradwyo'r penderfyniad yn y cyfarfod hwnnw sef y derbyniwyd tendrau oddi wrth un ymgeisydd ar gyfer torri'r glaswellt ar y Tir Comin yn Llanfihangel y Creuddyn (£180) ac ar gyfer tocio'r Ffordd Uchaf ac ati yn Llanafan (£170). Gan mai dyma'r unig dendrau, fe dderbyniwyd y ddau swm.

Cynigiwyd y penderfyniad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan y Cyng. E. Lewis.

Gweithredu: Y Clerc i gadarnhau drwy lythyr derbyn y tendrau gyda'r ymgeisydd.

## GOHEBIAETH

### Swyddfa Archwilio Cymru:

Darllenwyd llythyr wrth Swyddfa Archwilio Cymru i Gyngorau Tref a Chymuned Cymru mewn ymateb i bryderon rhai Cyngorau am ffioedd archwilio a materion yn ymwneud ag Archwiliad Cyllidol 2015-16.

### UNRHYW FATER ARALL

Adroddwyd i nifer o dyllau ymddangos ar y ffyrdd i gyfeiriad Llanfihangel-y-Creuddyn heibio'r ysgol a bu'r Cyngor Sir yn llenwi'r tyllau yn fuan wedi cysylltu gydag hwy.

Mae yna ddrain dwr wedi cwmpo i mewn yn agos i fynedfa Fferm Llwynbrain.

Cyfeiriwyd at gwynion y derbyniwyd bod nifer o ganghennau coed yn ymestyn allan i'r ffordd yn agos i Minffordd, Llanafan i fyny at y mynediad i'r goedwig ar ben rhiw Brynafan sydd wedi achosi niwed i ambell i gerbyd. Cytunwyd i gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu sylw at y broblem gan ofyn iddynt dorri'r canghennau fel mater o frys.

Derbyniwyd cwynion hefyd fod y darn tir o eiddo preifat yng nghanol Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn yn edrych yn flêr ac adeiladau'n cwmpo gyda'r angen i gysylltu gyda'r perchennog tir i wella'r edrychiad.

### Cyfethol Aelodau'r i'r Cyngor Cymuned

Yn dilyn yr Etholiad diwethaf mae yna ddau le gwag ar Gyngor Cymuned Trawsgoed. Trafodwyd y sefyllfa a chynigiwyd enwau perthnasol a fyddai o bosibl a diddordeb i fod yn Gyngorydd Cymuned. Gan y cynnigiwyd mwy o enwau na lefydd gwag cynhaliwyd pleidlais gudd ac enwebwyd dau aelod i eistedd ar y Cyngor Cymuned. Yr enwau i gadarnhau yn y cyfarfod nesaf yn dilyn trafodaeth gyda'r unigolion perthnasol.

### Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 19eg o Fehefin, 2017 am 7.30 y.h. yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.